

TGAU



CBAC TGAU
ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

A vibrant, intricate Islamic geometric pattern in shades of blue, teal, and gold. The pattern features a central circular motif with a gold star-like design, surrounded by complex interlocking lines and floral elements. The background is a deep blue with lighter blue and gold accents.

Ffynonellau Doethineb ac Awdurdod Uned 2 a 3 Islam



Rhan A

Islamaidd – Credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

Daw cyfeiriadau o'r Qur'an: Ystyron a nodiadau gan Saheeh International

Credoau

Bod yn broffwyd (Risalah)

Qur'an 2:136

Dywedwch, [O gredinwyr], 'Rydyn ni wedi credu yn Allah a'r hyn sydd wedi'i ddatguddio i ni a'r hyn a ddatguddiwyd i Abraham ac Ismael ac Isaac a Jacob a'r Disgynyddion [al-Ashat] a'r hyn a roddwyd i Moses ac Iesu a'r hyn a roddodd eu Harglwydd i'r proffwydi. Dydyn ni ddim yn gwahaniaethu rhwng unrhyw un ohonyn nhw, a Mwslimiaid ydyn ni [yn ymostwng] Iddo.

Qur'an 2:87

Ac yn sicr rhoddon Ni yr Ysgrythur [h.y. y Torah] i Moses ac ar ei ôl ef daeth negeseuwyr. A rhoddon ni brofion eglur i Iesu, fab Mair, a'i gefnogi â'r Ysbryd Glân [h.y. angel Gabriel]. Ond [onid] yw hi'n wir, bob tro y daeth negesydd atoch chi [O Blant Israel], gyda'r hyn nad oedd eich eneidiau ei eisiau, eich bod chi'n haerllug? Gwrthodoch chi griw [o negeseuwyr] a lladd criw arall.

Arferion

Hunaniaeth Fwslimaidd ac Ummah

Qur'an 3:18

Mae Allah yn tystio nad oes unrhyw dduwdod heblaw amdano Ef, ac [felly hefyd] yr angylion a'r rhai gwybodus – [ei fod Ef] yn cynnal [y greadigaeth] mewn cyfiawnder. Does dim duwdod heblaw amdano Ef, yr Aruchel o ran Grym, y Doeth.

Qur'an 2:190

Ymladdwch yn ffordd Allah y sawl sy'n ymladd yn eich erbyn, ond peidiwch â thorri'r rheolau. Yn wir, nid yw Allah yn hoffi'r rhai sy'n torri rheolau.

Qur'an 22:39

Mae caniatâd [i ymladd] wedi cael ei roi i'r rhai sydd mewn brwydr, oherwydd iddyn nhw ddioddef cam. Ac yn wir, mae Allah yn gymwys i roi buddugoliaeth iddyn nhw.

Rhan B

Thema 1: Materion Perthnasoedd o safbwynt Islamaidd

Perthnasoedd

Hadith Sahih Bukhari 9:89:252

<https://sunnah.com/urn/67080>

Meddai Negesydd Allah, "Does bosibl! Mae pob un ohonoch chi'n warcheidwad ac yn gyfrifol am y rhai dan ei ofal: Mae Imam (llywodraethwr) y bobl yn warcheidwad ac yn gyfrifol am ei ddeiliaid; mae dyn yn warcheidwad ei deulu (tŷ) ac yn gyfrifol am ei ddeiliaid; mae menyw yn warcheidwad cartref ei gŵr a'i blant ac yn gyfrifol amdanyn nhw; ac mae caethwas dyn yn warcheidwad eiddo ei feistr ac yn gyfrifol amdano. Does bosibl, mae pob un ohonoch chi'n warcheidwad ac yn gyfrifol am y rhai dan ei ofal."

Qur'an 30:21

Ac un o'i arwyddion Ef yw ei fod Ef wedi creu cymheiriaid i chi o'ch plith fel y gallwch gael llonyddwch ynddyn nhw; a rhoddodd Ef serch a thrugaredd rhyngoch chi. Yn wir, yn hynny mae arwyddion i bobl sy'n meddwl.

Qur'an 4:35

Ac os ofnwch fod y ddau'n anghytuno, anfonwch gyflafareddwr o'i bobl ef a chyflafareddwr o'i phobl hi. Ac os yw'r ddau eisiau cymodi, bydd Allah yn ei achosi rhyngddyn nhw. Yn wir, mae Allah yn Hollwybodol ac yn Hollymwybodol.

Qur'an 4:128-130

128 Ac os yw gwraig yn ofni y bydd ei gŵr yn ei dirmygu neu ei hosgoi, does dim pechod aryn nhw os ydyn nhw'n gwneud telerau trefniant rhyngddyn nhw – a threfniant sydd orau. Ac mae cybydd-dod yn bresennol mewn eneidiau [dynol]. Ac os ydych chi'n gwneud daioni ac yn ofni Allah – yna'n wir mae Allah

yn Ymwybodol o bopeth rydych chi'n ei wneud.

129 A fyddwch chi byth yn gallu bod yn gyfartal [o ran teimlad] rhwng gwragedd, hyd yn oed os ydych chi'n ymdrechu [i wneud hynny]. Felly peidiwch â thueddu'n gyfan gwbl [tuag at un] a gadael un arall ar y clwt. Ac os ydych chi'n rhoi trefn [ar eich pethau] ac yn ofni Allah – yna, yn wir, mae Allah yn Faddeugar ac yn Drugarog hyd byth.

130 Ond os ydyn nhw'n gwahanu [drwy ysgariad], bydd Allah yn cyfoethogi pob un [ohonyn nhw] o'i ddigonedd. Ac mae Allah yn Achosi ac yn Ddoeth hyd byth.

Qur'an 2:229

Mae ysgariad yn digwydd ddwywaith. Yna [ar ôl hynny], naill ai cadwch [hi] mewn dull derbyniol neu rhyddhewch [hi] gan ei thrin yn dda. A dydy hi ddim yn gyfreithiol i chi gymryd unrhyw beth o'r hyn rydych chi wedi'u rhoi iddyn nhw oni bai bod y ddau'n ofni na fyddan nhw'n gallu cadw [o fewn] terfynau Allah. Ond os ofnwch na fyddan nhw'n cadw [o fewn] terfynau Allah, does dim bai ar unrhyw un ohonyn nhw o ran yr hyn y mae hi'n pridwerthu ei hunan wrtho. Dyma derfynau Allah, felly peidiwch â'u croesi. A phwy bynnag sy'n croesi cyfyngiadau Allah – nhw yw'r drwgweithredwyr [h.y, yr anghyfiawn].

Perthnasoedd rhywiol

Qur'an 17:32

A pheidiwch â mynd yn agos at gyfathrach rywiol anghyfreithlon. Yn wir, mae'n anfoesoldeb ac yn ffordd ddrygionus.

Qur'an 7:80-81

80 A [roedden Ni wedi anfon] Lot pan ddywedodd wrth ei bobl, "Ydych chi'n cyflawni'r fath anfoesoldeb na chyflawnodd neb o'ch blaen chi ymysg y bydoedd [h.y, pobloedd]?"

81 Yn wir, rydych chi'n nesáu at ddynion yn chwantus, yn hytrach nag at fenywod. Yn hytrach, rydych chi'n bobl bechadurus.

Materion cydraddoldeb: rhagfarn a gwahaniaethu ar sail rhyw

Qur'an 2:228

Mae menywod wedi ysgaru'n aros [h.y, yn peidio ag ailbriodi] am dri mislif, ac nid yw'n gyfreithlon iddyn

nhw gelu'r hyn y mae Allah wedi'i greu yn eu crothau os ydyn nhw'n credu yn Allah a'r Diwrnod Olaf. Ac mae gan eu gwŷr fwy o hawl i'w cymryd yn ôl yn [y cyfnod] hwn os ydyn nhw eisiau cymodi. Ac iddyn nhw [h.y, y gwragedd], mae'r hyn a ddisgwylir ganddyn nhw'n ddyledus, yn ôl yr hyn sy'n rhesymol. Ond mae gan y dynion [h.y, y gwŷr] ryw fesur [o gyfrifoldeb ac awdurdod] drostynt Ac mae Allah yn Aruchel o ran Grym ac yn Ddoeth.

Qur'an 40:40

Fydd pwy bynnag a wnaiff weithred ddrwg ddim yn cael ei ad-dalu ond gan weithred debyg. Ond bydd pwy bynnag sy'n gwneud gweithredoedd cyfiawn, yn wryw neu'n fenyw, os yw'n grediniwr – bydd yn mynd i mewn i Baradwys, a bydd darpariaeth yno heb gyfrif.

Qur'an 4:1

O'r ddynoliaeth, ofnwch eich Arglwydd, a'ch creodd chi o un enaid ac a greodd ei gymar ohono a dosbarthu o'r ddau ohonyn nhw lawer o ddynion a menywod. Ac ofnwch Allah, yr ydych chi'n holi eich gilydd drwyddo, a'r crothau. Yn wir mae Allah uwch eich pen chi bob amser, yn Wylwr.

Rhan B

Thema 2: Materion Hawliau Dynol o safbwynt Islamaidd

Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol

Qur'an 5:32

Oherwydd hynny, ordeinion Ni ar Blant Israel fod pwy bynnag sy'n lladd enaid ac eithrio am enaid neu am lygredd [a wnaed] yn y tir – mae fel petai wedi lladd y ddynoliaeth i gyd. Ac yn sicr roedd Ein negeswyr wedi cyflwyno tystiolaeth glir iddyn nhw. Yna'n wir roedd nifer ohonyn nhw, [hyd yn oed] wedi hynny drwy'r tir i gyd, yn droseddwy.

Rhagfarn a gwahaniaethu

Qur'an 49:13

O Ddynoliaeth, yn wir rydyn Ni wedi eich creu chi o wryw a benyw ac wedi eich gwneud chi'n bobloedd ac yn llwythau i chi ddod i adnabod eich gilydd. Yn wir, y mwyaf cyfiawn ohonoch chi yw'r mwyaf anrhydeddus

yng ngolwg Allah. Yn wir, mae Allah yn Wybodus ac yn Ymwybodol.

Qur'an 5:8

O chi sydd wedi credu, daliwch i sefyll yn gadarn dros Allah, dystion mewn cyfiawnder, a pheidiwch â gadael i gasineb pobl eich atal rhag bod yn gyfiawn. Byddwch yn gyfiawn; mae hynny'n nes at gyfiawnder. Ac ofnwch Allah; yn wir, mae Allah yn [gwbl] Ymwybodol o'r hyn a wnewch.

Materion cyfoeth a thlodi

Qur'an 2:177

Nid bod yn gyfiawn yw troi eich wynebau tua'r dwyrain neu'r gorllewin, ond mae [gwir] gyfiawnder [yn] yr un sy'n credu yn Allah, y Dydd Olaf, yr angylion, y Llyfr, a'r proffwydi, ac sy'n rhoi cyfoeth, er ei fod yn ei garu, i berthnasau, i rai amddifad, i rai mewn angen, i'r teithiwr, i'r rhai sy'n gofyn [am help], ac i ryddhau caethweision; [ac sydd] yn sefydlu gweddi ac yn rhoi zakah; [y rhai sydd] yn cyflawni eu haddewid pan fyddan nhw'n addo; ac [a'r rhai sydd] yn amyneddgar mewn tlodi a chaledi ac yn ystod brwydr. Nhw yw'r rhai sydd wedi bod yn gywir, a nhw yw'r rhai sy'n gyfiawn.